CARDIFF
CAERDYDD

County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087

Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088

15 Mawrth 2016

Annwyl Randdeiliad

Ar 10 Mawrth 2016 ymgynghorodd Cyngor Dinas Caerdydd ar gynnig i gau Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Llanfihangel (Ffederasiwn Glyn Derw a Llanfihangel) o 31 Awst 2017, sefydlu ysgol uwchradd gymunedol 11-18 newydd yn eu lle ar gyfer ardal Caerau a Threlái o 01 Medi 2017, a symud yr ysgol uwchradd newydd i adeiladau newydd yn safle presennol Ysgol Uwchradd Glyn Derw o fis Medi 2018.

Ystyriodd y Cabinet y cynnig a chyflwynwyd y gwrthwynebiadau statudol ac ymateb yr awdurdod lleol wedi hynny.

Nodwyd bod un gwrthwynebiad statudol. Caiff y pryderon a godwyd eu crynhoi yn yr adroddiad gwrthwynebiadau ynghyd â'r ymateb gan yr awdurdod lleol. Ystyriwyd bod yr ymateb a wnaed gan yr awdurdod lleol wedi ateb y materion a godwyd.

Mae'r adroddiad gwrthwynebiadau ar gael ar wefan y Cyngor https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Ysgolion-yr-21ain-Ganrif/Y-newyddion-diweddaraf-a-sut-i-gysylltu-a-ni/Pages/default.aspx

Roedd y Cabinet yn fodlon y byddai'r cynnig yn:

- Cynnig cyfleusterau addas i'r 21ain ganrif wedi'u hadeiladu o'r newydd a fyddai'n cynorthwyo'r gwaith o ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys
- Symleiddio polisïau a strwythurau ymhellach
- Rhannu arfer da, deunyddiau paratoi ac adnoddau
- Gwella cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff
- Gwella morâl staff/lleihau absenoldeb staff
- Gwella cyfleoedd cymdeithasol ar gyfer disgyblion
- Gwneud y gorau o adnoddau ac arbenigedd proffesiynol
- Cefnogi effeithlonrwydd drwy sicrhau arbedion maint o ran cyflawni gweithgareddau allweddol
- Hybu lles ehangach disgyblion trwy o bosibl ddod â gwasanaethau bugeiliol a gwasanaethau eraill ynghyd i fodloni eu hanghenion cyfan
- Cefnogi gwelliant ysgolion
- Gwella cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau disgyblion a chynnig cwricwlwm eang a chytbwys.
- Gwneud y gorau o fuddion sy'n deillio o Fentrau Cenedlaethol
- Magu datblygiad naturiol o'r ysgol hyd at ddarpariaeth ôl-16
- Cefnogi addysgu a dysgu mwy effeithiol

Atgyfeirio Penderfyniad yr Awdurdod Lleol i Weinidogion Cymru

Dan adran 54 Deddf 2013, lle mae cynigion wedi'u cymeradwyo gan awdurdod lleol gall y cyrff canlynol o fewn 28 diwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried;

100% recycled paper
100% o bapur a ailgylchwyd

i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
ii. Y corff crefyddol priodol;
iii. Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu sylfaen;
iv. Eiddo ymddiriedolaeth ar ran ysgol wirfoddol neu sylfaen;
v. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynnig yn effeithio arno.

Mae'r penderfyniad yn destun gweithdrefnau galw i mewn fel y nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor sy'n galluogi adolygu'r penderfyniadau a wneir gan y Cabinet. Pe bai'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn, rhoddir gwybod i'r holl randdeiliaid.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol arnoch cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth drwy ffonio 029 2087 2917 neu e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk.

Yn gywir

Janine Nightingale
Pennaeth Trefniadaeth Ysgolion, Mynediad a Chynllunio